Diweddarwyd Rhagfyr 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dileu elw o Ofal plant

## Negeseuon allweddol i ofalwyr maeth

### Cyflwyniad

Dyma ddogfen ar gyfer gofalwyr maeth yng Nghymru. Mae'n nodi'r negeseuon allweddol am bolisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal. Mae wedi'i llunio gan Lywodraeth Cymru gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol yn y sector gofal maeth.

Rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y mae gofalwyr maeth yn ei chwarae wrth ddarparu gofal a chymorth i rai o'r plant mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae ymroddiad ac ymrwymiad gofalwyr maeth wrth gyflawni eu rôl yn rhan hollbwysig o hyrwyddo lles y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal er mwyn eu helpu i ffynnu.

Bydd sgiliau ac ymroddiad gofalwyr maeth yn parhau i fod yn gwbl hanfodol wrth inni ddechrau rhoi'r polisi hwn ar waith yng Nghymru. Nid ydym am weld unrhyw ofalwyr maeth yn gadael y sector o ganlyniad i'r newidiadau. Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y gofalwyr maeth ledled Cymru.

### Beth yw'r newidiadau hyn?

**Pedwar pwynt pwysig**

| | |
|---|---|
| 1 | O 1 Ebrill 2026 ymlaen, bydd cyfraith newydd yn dechrau dod i rym yng Nghymru. Yn y pen draw bydd yn atal pob cartref plant a gwasanaeth maethu yng Nghymru rhag gwneud elw preifat. |
| 2 | Bydd y gyfraith yn dod i rym yn raddol er mwyn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o ansicrwydd i blant a gofalwyr, ac i wneud yn siŵr ei bod yn dod â'r budd a fwriedir. |
| 3 | Byddwn yn gweithio gyda chynghorau lleol, darparwyr gofal, asiantaethau maethu, a grwpiau plant wrth inni weithredu'r newidiadau hyn. Rydym yn awyddus i helpu'r asiantaethau a'u gofalwyr maeth, y mae hyn yn effeithio arnynt, i wneud y penderfyniadau sy'n iawn iddyn nhw. |
| 4 | Ar y cyd ag eraill yn y sector, byddwn yn rhoi arweiniad, cymorth ac adnoddau i chi ac i'r rhai yr ydych yn gofalu amdanynt, er mwyn eich helpu i reoli'r newidiadau mewn modd esmwyth a di-dor. Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi, ac i'ch cynnwys a'ch cefnogi yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. |

## Cefndir y polisi

- Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad ers tro (drwy ei **Rhaglen Lywodraethu**) i ddileu gallu darparwyr gofal i wneud elw preifat o'r gwasanaethau gofal sy'n cael eu darparu i blant sy'n derbyn gofal.
- Wrth sôn am ddarparwyr gofal, rydym yn golygu cartrefi gofal i blant, gwasanaethau llety diogel, a gwasanaethau maethu ar gyfer y plant hynny y mae angen iddynt dderbyn gofal.
- Mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn rhan o becyn o welliannau i'r ffordd y mae plant yn derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y bydd plant a'u teuluoedd yn cael y gefnogaeth orau bosibl, gan ddarparu'r hyn sydd ei angen arnyn nhw mor agos at eu cartref a'u teulu â phosibl.
- Er mwyn gwella'r gwasanaethau hyn, rhaid gwario'r arian ar gyfer y gwasanaethau hynny mewn modd mor effeithiol â phosibl. Dylid ei wario ar wella cartrefi plant a gwasanaethau maethu, ac ar helpu i gefnogi a datblygu'r gweithlu, yn hytrach na'i ddefnyddio i wneud elw preifat.

## Sut ydym yn gwneud y newidiadau hyn?

**Rydym yn gwneud y newidiadau hyn drwy gyfraith newydd o'r enw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025, a fydd yn berthnasol yng Nghymru.**

## Pa newidiadau fydda i'n eu gweld?

- Bydd hynny'n dibynnu ar y math o asiantaeth yr ydych wedi cofrestru â hi fel gofalwr maeth.
- Os ydych chi'n ofalwr maeth i awdurdod lleol neu asiantaeth faethu nid-er-elw, yna ni ddylai'r trefniadau newydd gael unrhyw effaith arnoch chi na'r plentyn/person ifanc rydych chi'n gofalu amdanynt ar y pryd. Byddwch yn gallu parhau i ofalu amdanynt cyhyd â bod hynny er budd gorau pawb.
- Os ydych wedi cofrestru ag asiantaeth faethu er-elw, efallai y byddwch yn gweld rhai newidiadau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Os nad ydych yn gwybod pa fath o sefydliad yr ydych yn gweithio iddo, dylech siarad â'ch asiantaeth yn y lle cyntaf.
- Efallai y bydd rhai asiantaethau er-elw yn newid i fod yn asiantaethau nid-er-elw er mwyn parhau i gynnal eu gwasanaethau yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd eraill yn dewis aros fel asiantaethau er-elw, gan weithredu o dan gyfyngiadau penodol, neu efallai y bydd rhai yn rhoi'r gorau i weithredu yn gyfan gwbl. Dylai'r asiantaeth rydych chi'n maethu ar ei chyfer roi gwybod ichi am ei chynlluniau.

## Beth fydd hyn yn ei olygu i mi a'r plant rwy'n gofalu amdanynt?

- Byddwn yn parhau i fod angen eich sgiliau, eich ymrwymiad a'ch profiad i gefnogi plant a phobl ifanc y mae angen gofal maeth arnynt, ac nid ydym am golli'ch profiad gwerthfawr.
- Mae amser ar gael i'r darparwyr gwasanaethau maethu sydd â model busnes er-elw feddwl am yr hyn y maen nhw am ei wneud yn y dyfodol. Bydd y cyfnod hwn hefyd yn helpu awdurdodau lleol i gynllunio sut y byddant yn sicrhau bod digon o ofalwyr maeth yn eu hardaloedd. Mewn llawer o achosion bydd awdurdodau lleol yn creu ac yn tyfu mwy o'u gwasanaethau (mewnol) eu hunain, gan gynnwys gwasanaethau gofal maeth. Byddant hefyd yn helpu darparwyr nid-er-elw i wneud yr un peth. Bydd hynny'n golygu y bydd digon o gyfleoedd i barhau i faethu.
- Os ydych chi'n maethu ar gyfer asiantaeth faethu er-elw ar hyn o bryd, sy'n penderfynu ei bod am barhau i weithredu fel asiantaeth er-elw (yn amodol ar gyfyngiadau penodol), byddwch yn gallu parhau i ofalu am y plentyn/person ifanc sydd eisoes wedi'i leoli gyda chi os yw hynny er ei fudd gorau.
- Fodd bynnag, yn y dyfodol, efallai y bydd y cyfleoedd ichi ofalu am ragor o blant yn gyfyngedig, gan y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru geisio cymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru i leoli plentyn gyda sefydliad er-elw, a hynny erbyn 1 Ebrill 2030. Ni fyddwch ychwaith yn gallu gofalu am blant a leolir gan awdurdod lleol yn Lloegr, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.
- Os yw'ch asiantaeth yn asiantaeth er-elw sy'n bwriadu rhoi'r gorau i weithredu naill ai ar 1 Ebrill 2030, neu cyn hynny, yna bydd angen ichi wneud trefniadau i drosglwyddo i awdurdod lleol neu wasanaeth maethu nid-er-elw os ydych yn dymuno parhau i fod yn ofalwr maeth a/neu barhau i ofalu am y plentyn/plant sydd wedi'u lleoli gyda chi. Rydym yn gobeithio, os bydd hyn yn berthnasol i chi, y byddwch yn ystyried gwneud hyn.
- Mae rhagor o wybodaeth am sut i drosglwyddo o un gwasanaeth maethu i'r llall ar gael yn y **Protocol** sydd ynghlwm. Gallwch wneud hyn p'un a yw plentyn wedi'i leoli gyda chi ai peidio.

## Pryd fydd y newid hwn yn effeithio arna i?

- Mae Deddf 2025 bellach yn derfynol. Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau'n digwydd ar unwaith.
- Er mwyn sicrhau bod pethau'n rhedeg mor esmwyth â phosibl, bydd gwahanol rannau o'r gyfraith yn dod i rym ar wahanol adegau, sef:

**O 1 Ebrill 2026 ymlaen**

**Ni chaniateir i gartrefi plant, gwasanaethau llety diogel na gwasanaethau maethu 'er-elw' newydd gofrestru.**

**Ni chaiff darparwyr presennol cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel na gwasanaethau maethu amrywio eu cofrestriad i ychwanegu gwasanaeth neu leoliad 'er-elw' newydd.**

**O 1 Ebrill 2027 ymlaen**

**Nid oes modd ychwanegu unrhyw welyau ychwanegol i gartrefi plant 'er-elw' presennol.**

**Dim gofalwyr maeth newydd yn cael eu cymeradwyo gan ddarparwyr presennol 'er-elw' gwasanaeth maethu.**

**Erbyn mis Ebrill 2030 (neu'n gynharach)**

**Ni ellir rhoi plant yng ngofal darparwr 'er-elw' ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.**

*(Er enghraifft, os nad oes lleoedd addas ar gael mewn gwasanaethau nid-er-elw).*

# Atodiad A – Cwestiynau Cyffredin

**Ar sail ein trafodaethau â'r sector hyd yma, dyma rai cwestiynau cyffredin a allai fod yn berthnasol ichi.**

## A fydd asiantaethau maethu annibynnol nid-er-elw yn dal i fodoli yng Nghymru?

Byddant. Mae asiantaethau gofal maeth nid-er-elw yn hanfodol i'r ddarpariaeth faethu, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rôl allweddol y maent yn ei chwarae ac yn cefnogi eu twf parhaus er mwyn inni allu parhau i ddiwallu anghenion plant sy'n cael eu maethu ledled Cymru.

## Beth fydd fy asiantaeth faethu yn ei wneud?

Rydym yn eich cynghori i siarad â'ch asiantaeth. Bydd yr hyn y mae'n ei wneud yn dibynnu ar y math o sefydliad – a yw'n awdurdod lleol, yn sefydliad nid-er-elw (er enghraifft elusen) neu'n sefydliad er elw (er enghraifft cwmni preifat cyfyngedig drwy gyfranddaliadau). Efallai y bydd rhai asiantaethau'n dal i benderfynu beth ydyn nhw am ei wneud, ac efallai fod eraill eisoes wedi dod i benderfyniad (er enghraifft efallai y bydd darparwr er-elw yn penderfynu ailsefydlu ei fusnes ar fodel nid-er-elw). Ni fydd llawer o newid yng ngwasanaethau maethu awdurdodau lleol, er eu bod yn bwriadu cynyddu maint eu gwasanaethau. Mae'n bwysig eu bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am eu cynlluniau.

## Beth fydd yn digwydd i'r plant yr wyf yn gofalu amdanynt?

Mae'r polisi wedi'i lunio i sicrhau bod cyn lleied o ansicrwydd â phosibl yn cael ei achosi i'r plant. Gall plentyn neu berson ifanc aros gyda'i ofalwr maeth cyhyd â bod asiantaeth y gofalwr yn parhau i weithredu, hy tra bod y lleoliad er budd gorau'r plentyn neu'r person ifanc y mae'n gofalu amdano.

## A fyddaf yn derbyn yr un lefel o gymorth a ffioedd a lwfansau os byddaf yn trosglwyddo i wasanaeth maethu awdurdod lleol?

Pan gytunir y bydd lleoliad plentyn neu berson ifanc yn parhau gyda gofalwr maeth, mae'r protocol trosglwyddo yn argymell bod y gwasanaeth maethu sy'n recriwtio, o leiaf, yn parhau i dalu'r cyfraddau lwfansau a ffioedd cyfredol i'r gofalwr maeth mewn perthynas â'r lleoliad hwnnw. Dylai'r cyfraddau hyn barhau i fod yn berthnasol drwy gydol y lleoliad, yn amodol ar unrhyw godiadau a symudiadau trwy'r bandiau oedran y cytunir arnynt yn flynyddol.

## Beth yw Maethu Cymru?

**Maethu Cymru** yw'r rhwydwaith maethu cenedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol. Mae rhwydwaith 'Maethu Cymru' yn dwyn ynghyd y 22 o dimau maethu nid-er-elw'r awdurdodau lleol yng Nghymru.

## A fyddaf yn cael yr un lefel o gefnogaeth os byddaf yn trosglwyddo i ofal maeth awdurdodau lleol?

- Mae Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru yn sicrhau bod pecyn cyson o hyfforddiant, cymorth a gwobrwyo ar gael i holl ofalwyr maeth awdurdodau lleol Cymru.
- Bydd yr awdurdod lleol bob amser yn ceisio gosod plant gyda'u gofalwyr maeth eu hunain yn gyntaf, a fydd yn golygu bod llai o fylchau a pharu gwell.
- Bydd y cymorth a'r hyfforddiant a gewch gan awdurdod lleol yn lleol i chi, gyda chymuned leol o ofalwyr maeth gerllaw i'ch cefnogi yn eich rôl faethu.
- Gall maethu'n uniongyrchol gydag awdurdod lleol olygu bod cysylltiadau agosach â gweithiwr cymdeithasol y plentyn, a fydd yn aml wedi'i leoli yn yr un swyddfa â'ch gweithiwr cymdeithasol sy'n gyfrifol am oruchwylio.
- Bydd plant yn dod o'ch ardal leol, sy'n golygu y gellir cadw'r cysylltiadau pwysig hynny i'r bobl ifanc yr ydych yn gofalu amdanynt, a gwneud pethau megis eu cludo i'r ysgol a chynnal amser teuluol yn haws.
- Mae Maethu Cymru yn cynnwys gofalwyr maeth mewn gwelliannau a datblygiadau drwy ymgynghori lleol a chenedlaethol rheolaidd, ac mae awdurdodau lleol yn cydweithio er mwyn gwella pethau ichi.
- Mae Maethu Cymru hefyd wedi gweithredu fframwaith Dysgu a Datblygu sy'n darparu dull gweithredu cenedlaethol cyson ar gyfer dysgu a datblygu ôl-gymeradwyo i ofalwyr maeth yng Nghymru.

## Â phwy y gallaf siarad os oes gen i unrhyw gwestiynau neu bryderon?

Gallwch gysylltu â thîm maethu eich awdurdod lleol drwy wefan Maethu Cymru – **Eich Awdurdod Lleol | Maethu Cymru**

I gael cyngor a gwybodaeth, cysylltwch â:

- Fosterline Cymru ar **0800 316 7664** neu ebostio **fosterlinewales@fostering.net**. Llinell gymorth yw hon sy'n cael ei rhedeg gan The Fostering Network – **Fostering Advice Lines | The Fostering Network**
- The Fairer Fostering Partnership – **Changes to Fostering in Wales – The Fairer Fostering Partnership**
- Cymdeithas ar gyfer Maethu, Perthynas a Mabwysiadu – **Cais am Gyngor neu Wybodaeth – AFKA Cymru**
- Nationwide Association of Fostering Providers – **Nationwide Association of Fostering Providers | Home**

## Beth os bydd y plant rwy'n gofalu amdanynt yn gofyn cwestiynau imi am sut y bydd hyn yn effeithio arnyn nhw?

**Bydd gan blant a phobl ifanc gwestiynau ynghylch y newidiadau a beth fydd yr effeithiau posibl arnyn nhw, eu brodyr a'u chwiorydd, a'u ffrindiau. Wrth reswm, efallai y bydd ganddyn nhw gwestiynau ichi.**

**Rydym hefyd wedi llunio dogfen debyg i'r un yma ar gyfer plant a phobl ifanc i geisio ateb rhai o'u cwestiynau – mae'r ddogfen honno ar gael yma: www.llyw.cymru/newid-i-fodelau-gofal-nid-er-elw-ar-gyfer-plant-syn-derbyn-gofal-yng-nghymru-taflenni-gwybodaeth.**



**Mae'r negeseuon allweddol yr un fath â'r rhai yn y ddogfen hon. Dyma rai atebion posibl ichi eu defnyddio wrth ymateb i gwestiynau:**

"Mae'r newidiadau yma'n cael eu gwneud mewn ymateb i farn rhai plant yng Nghymru am y ffaith bod yr heriau y maen nhw a'u teuluoedd yn eu hwynebu yn ffynhonnell elw preifat."

"Bydd y newidiadau'n golygu bod unrhyw arian sy'n cael ei wario ar ofal plant yn mynd yn uniongyrchol ar ofalu am blant."

"Efallai na fydd y newidiadau yma'n effeithio arnat ti'n uniongyrchol, ond os ydyn nhw'n effeithio ar dy ofal di, bydd hynny yn cael ei gynllunio a'i wneud yn raddol ar amser sy'n iawn i ti. Byddi di'n cael dy gynnwys mewn penderfyniadau a chynlluniau ac yn gwybod beth sy'n digwydd."

**Mae gan bob plentyn a pherson ifanc mewn gofal yr hawl i ddefnyddio gwasanaethau eirioli proffesiynol annibynnol. Gall y gwasanaethau hyn ddarparu gwybodaeth am y gwaith ar ddileu elw o ofal plant. Gallan nhw hefyd helpu'r plant a'r bobl ifanc yn eich gofal i fynegi eu barn fel rhan o unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynglŷn â ble maen nhw'n byw/ble y gallent fod yn byw yn y dyfodol. Mae dau ddarparwr eiriolaeth yng Nghymru. Gweler y manylion isod:**

- Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru (NYAS) yn darparu eiriolaeth statudol i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal ac sy'n rhan o'r system amddiffyn plant yn ardaloedd Gwent, Caerdydd a'r Fro, ac Abertawe/Castell-nedd Port Talbot. Yng Nghaerffili a Blaenau Gwent mae eiriolaeth ar gael i unrhyw blentyn neu berson ifanc.
- I ddefnyddio gwasanaeth cyngor rhadffôn NYAS, gall plant a phobl ifanc ffonio **0808 808 1001** neu ymweld â'r wefan – www.nyas.net
- Mae Tros Gynnal Plant (TGP Cymru) yn cynnig Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol i blant a phobl ifanc sydd mewn gofal neu sy'n derbyn gofal a chymorth, gan gynnwys mewn perthynas ag amddiffyn plant, yn y Gogledd, y Canolbarth a'r Gorllewin, a Chwm Taf Morgannwg.
- I gael rhagor o fanylion, ewch i'r wefan – www.tgpcymru.org.uk/cy/ neu cysylltwch â'r gwasanaethau rhanbarthol yn uniongyrchol:
  - Gogledd Cymru:
    **01286 238007 / 0800 111 6880**
    northwalesadvocacy@tgpcymru.org.uk
  - Canolbarth a Gorllewin Cymru:
    **01545 571865 / 0808 168 2599**
    midandwestwales@tgpcymru.org.uk
  - Cwm Taf Morgannwg:
    **01443 805940 / 0800 4703930**
    cwmtafmorgannwg@tgpcymru.org.uk

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53594, ISBN digidol 978-1-80633-869-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg